Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Cylch Meithrin Cynwyd**

**Ysgol Isaf**
**Cynwyd**
**Corwen**
**LL21 0HR**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**28 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Cylch Meithrin Cynwyd wedi'i gofrestru i ofalu am 20 o blant rhwng 0 a 12 oed. Mae'r gwasanaeth wedi'i leoli mewn hen adeilad ystafell ysgol oddi ar y brif ffordd ym mhentref Cynwyd ac mae ar agor rhwng 08.00 a 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener. Ffion Williams yw'r unigolyn cyfrifol a Lisa Jones yw'r person â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn mynd â'r plant i'r ysgol leol a'u casglu oddi yno, a darperir cinio ysgol.

Cymraeg yw iaith y gwasanaeth a darperir "Cynnig Rhagweithiol" ar gyfer y Gymraeg sy'n golygu bod y Gymraeg ar gael heb i'r rhieni a'r plant orfod gofyn amdani.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae hwn yn wasanaeth gyda phlant egnïol a hapus, sy'n edrych yn gartrefol. Mae'r ymarferwyr yn brofiadol, yn gymwysedig ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r plant. Caiff rhaglenni amrywiol o weithgareddau eu cynllunio a'u cynnig er budd pob plentyn. Mae'r eiddo a'r gweithgareddau yn ddiogel ac yn addas i ofalu am blant ac maent yn cynnig amgylchedd ysgogol iddynt, dan do ac yn yr awyr agored. Mae'r gwasanaeth yn cael ei arwain mewn ffordd gefnogol a llwyddiannus, gan sicrhau bod y plant a'u teuluoedd yn cael profiadau gwerthfawr.

### 2. Gwelliannau

- Ers cofrestru mae lloriau'r ardal fwyta a'r brif ystafell chwarae wedi cael eu gwella.
- Yn ystod yr arolygiad hwn cafodd dewis iachach na sgwash ei ddarparu ar gyfer clwb ar ôl ysgol y plant pan gynigiwyd dŵr neu laeth i'w yfed.
- Y diwrnod ar ôl yr arolygiad hwn cawsom gadarnhad ysgrifenedig fod cofnodion pob un o'r plant yn cynnwys manylion o'u meddyg teulu a chaiff cofnodion cywir o'r tymheredd eu cadw bellach.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Dim heb eu datrys.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae gan y plant lefel uchel o lesiant am fod ganddynt lais cryf ac am eu bod yn gallu dewis o blith amrywiaeth o weithgareddau a gwneud awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol. Maent yn hapus, wedi ymlacio ac yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r ymarferwyr wrth gymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol a gynigir. Mae'r plant yn datblygu'n dda ac yn dysgu sgiliau i'w helpu i fod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae'r plant yn cael eu hannog i siarad, ac mae'r ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn rhoi dewisiadau iddynt.

Roedd y plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn hyderus. Roedd y plant yn hapus i fynd at yr ymarferwyr i ofyn am ddeunyddiau megis peniau ar gyfer y bwrdd gwyn a help i dynnu llun. Roedd y plant yn hyderus wrth wneud dewisiadau priodol am beth i chwarae ag ef gan eu bod yn gwybod beth oedd ar gael iddynt. Cafodd y plant a oedd am gael gwasanaeth Cymraeg y gwasanaeth hwn gan mai hon oedd y brif iaith a siaradwyd. Mae'r plant hŷn yn cymryd rhan mewn pwyllgor plant er mwyn gwneud awgrymiadau ar gyfer gweithgareddau arbennig. Mae'r awgrymiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith, er enghraifft helpu plant i adeiladu cuddfan a phrynu gemau bwrdd.

Mae gan y plant lais cryf ac maent yn gwybod bod yr ymarferwyr yn gwrando arnynt ac yn eu parchu.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus, ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Roedd y plant iau wedi ymdopi'n dda â bod ar wahân i'w rhieni ac wedi ymgartrefu. Roedd y plant yn fodlon a mynegodd y plant fwynhad, er enghraifft wrth chwarae gyda'r toes chwarae.  Roedd pob plentyn yn gyfarwydd â'r drefn a oedd yn rhoi ymdeimlad o sicrwydd iddynt ac roedd yr amserlen yn briodol o ran eu datblygiad a'u hanghenion megis cael cyfnodau byrrach o amser cylch strwythuredig. Roedd gan y plant gydberthynas agos â'r ymarferwyr ac yn gwybod pwy fyddai'n eu helpu, a oedd yn magu eu hyder.

Mae'r plant bob amser yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac maent yn ymddiried yn yr ymarferwyr.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd a'r ymarferwyr.

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Gwnaethant helpu i dacluso'r teganau ac roeddent yn hapus i olchi eu dwylo cyn bwyta byrbryd. Roeddent yn cynnal diddordeb mewn tasgau megis adeiladu trac trên ac yn gwrando'n dda ar stori.

Roeddent wedi dysgu i rannu eitemau fel llestri yn y gornel gartref. Cafodd y plant iau yn y clwb ar ôl ysgol help gan y rhai hŷn i dynnu lluniau.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n effeithiol ac maent yn dysgu sgiliau cymdeithasol gwerthfawr.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu.

Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn ymroi i chwarae a dysgu, er enghraifft wrth dynnu lluniau ar y bwrdd sialc a cheisio ffurfio'r llythyren O. Roedd y plant yn gallu archwilio'r amgylchedd yn ddirwystr, er enghraifft roeddent yn mwynhau peintio a chwarae gêm lotto a oedd yn gwella geirfa'r plant yn ogystal â'u hannog i gymryd eu tro. Roedd y plant yn awyddus i ddangos eu darluniau ar gyfer eu rhieni i'r ymarferwyr. Roedd y plant a oedd yn Helpwr Heddiw yn meithrin ymdeimlad o gyflawniad o gwblhau tasgau syml yn ystod amser byrbryd. Roedd y plant wedi cynhyrfu'n lân ar ôl clywed yr awgrym o greu cuddfan yn yr awyr agored ar ôl ysgol.

Mae'r plant yn mwynhau'r gweithgareddau ysgogol a ddarperir ac maent yn ymroi'n llwyr i chwarae a dysgu.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn dysgu, yn datblygu ac yn dod yn annibynnol.

Cafodd y plant amrywiaeth dda o brofiadau, gan gynnwys chwarae a ddewiswyd yn rhydd a oedd yn eu galluogi i feithrin amrywiaeth dda o sgiliau ac yn eu helpu â'u datblygiad cyffredinol. Gwelsom fod y plant yn gallu defnyddio cyllell a fforc amser cinio. Roeddent hefyd yn gallu gafael mewn amrywiaeth o gyfarpar gwneud marciau megis sialc, brwsys a pheniau. Y tu allan, roedd y plant yn mwynhau chwarae gydag amrywiaeth o deganau a gemau a arweinir gan ymarferwyr a gallent wisgo eu cotiau.

Mae'r plant yn datblygu'n llwyddiannus ac yn cael eu hannog i fod yn annibynnol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r ymarferwyr yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach drwy gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau. Maent yn rheoli'r rhyngweithio'n llwyddiannus gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol. Maent yn ofalgar, yn fagwrus ac yn ymateb i anghenion y plant. Mae amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu cynllunio a'u darparu er mwyn hybu dysgu a datblygiad y plant. Mae'r ymarferwyr yn diwallu anghenion unigol y plant am eu bod yn adnabod y plant a'u teuluoedd yn dda.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae’r ymarferwyr yn cadw’r plant yn ddiogel ac yn iach.

Roedd yr ymarferwyr yn deall ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel i ddiogelu gan fod ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant a dangosodd trafodaethau â nhw ei fod yn gwestiwn gosod yn eu sesiynau goruchwylio i ofyn a oedd yna blentyn a oedd yn achosi pryder iddynt. Roedd pob un o'r ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac roedd y rhifau cyswllt ar gael yn hawdd. Roedd y polisi diogelu yn cynnwys adran ar atal eithafiaeth dreisgar. Roedd gan bob ymarferydd gymwysterau cymorth cyntaf pediatrig cyfredol ac roedd ffurflenni damweiniau yn dangos bod digwyddiadau yn cael eu trin yn briodol a bod y rhieni'n cael gwybod amdanynt ac yn llofnodi'r cofnodion.

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo wrth i fyrbrydau a diodydd maethlon gael eu darparu yn ystod y dydd a gwelwyd bwydlen iach ar gyfer y clwb ar ôl ysgol. Fodd bynnag, nodwyd eu bod yn defnyddio sgwash ar gyfer y clwb ar ôl ysgol a chafodd hyn ei newid ar ei union. Roedd pob ardal yn lân ac roedd y byrddau'n cael eu glanhau drwy ddefnyddio chwistrell gwrthfacterol. Gwelwyd bod gweithdrefnau newid cewynnau yn cynnwys prosesau i osgoi croeshalogi ac roedd arweinwyr wedi defnyddio'r Adnodd Archwilio Rheoli Heintiau.

Roedd yr ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael cyfle i fod yn egnïol yn yr awyr agored bob dydd os yn bosibl. Gwelsom y plant yn chwarae yn yr awyr agored yn ystod y bore, y prynhawn ac ar ôl ysgol pan roedd y plant yn mwynhau'r gweithgareddau a'r adnoddau. Roedd y plant yn manteisio ar y cyfle i gael awyr iach er ei bod yn bwrw glaw mân ac roedd gweithgareddau yn yr awyr agored wedi'u cynnwys yn y gwaith cynllunio a gwelsom nifer o luniau diweddar o'r plant yn chwarae yn yr awyr agored. Dywedodd y plant wrthym eu bod yn chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd. Roedd hylendid deintyddol yn cael ei hybu gan fod y plant sy'n mynychu sesiwn y bore yn ymarfer brwsio eu dannedd. Roedd ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi a rhoddodd yr ymarferwyr sicrwydd inni y byddai'r plant yn gadael yr adeilad yn ddiogel mewn argyfwng.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod iechyd a diogelwch y plant yn flaenoriaeth bob amser.

## 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio gan ddefnyddio strategaethau cadarnhaol.

Roedd yr ymarferwyr yn cymhwyso gweithdrefnau y cytunwyd arnynt er mwyn hyrwyddo rhyngweithio cadarnhaol drwy ddathlu ymddygiad da. Roedd y plant yn cael eu cadw'n brysur mewn ffordd gadarnhaol a defnyddiwyd technegau tynnu sylw yn effeithiol. Clywsom lawer o ganmoliaeth ac anogaeth ac roedd yr ymarferwyr yn fodelau rôl da, er enghraifft, yn dweud os gwelwch yn dda a diolch wrth y plant drwy gydol y sesiynau. Roedd yr ymarferwyr yn deall datblygiad plant a sut mae hyn yn effeithio ar ymddygiad plentyn. Defnyddiwyd caneuon yn effeithiol er mwyn nodi gwahanol adegau fel amser tacluso ac eistedd ar gyfer amser cylch a defnyddiwyd sticeri fel gwobrau.

Mae'r ymarferwyr yn rheoli rhyngweithio'r plant yn llwyddiannus, gan helpu'r plant i gydweithio a dysgu sgiliau cymdeithasol.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r ymarferwyr gofalgar yn hybu dysgu a datblygiad y plant, gan ddarparu amrywiaeth o brofiadau diddorol dan do ac yn yr awyr agored.

Roedd yr ymarferwyr yn ofalgar ac yn fagwrus ac yn ymateb yn brydlon i anghenion y plant megis galluogi'r plant i chwarae yn yr awyr agored pan oeddent yn gofyn am gael gwneud hynny. Roedd yr ymarferwyr yn hyderus ac wedi ymlacio gan fod ganddynt wybodaeth gyfredol am ddatblygiad plant gan fod pob un ohonynt yn gymwysedig. Defnyddiwyd cerddoriaeth a chanu i atgyfnerthu patrymau Cymraeg. Roedd chwarae yn yr awyr agored yn annog sgiliau corfforol megis neidio a rhedeg.

Gwelsom ddogfennau cynllunio wythnosol a oedd wedi'u harddangos er mwyn i'r holl ymarferwyr fod yn ymwybodol o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ac roeddent yn cynnwys gwerthusiad o'r gweithgareddau. Roedd hefyd rotâu dyletswydd tasgau i sicrhau bod tasgau'n cael eu dirprwyo'n deg rhwng yr ymarferwyr. Roedd nodiadau arsylwi a llyfrau trysorau wedi cael eu cwblhau ar gyfer pob plentyn fel bod eu cynnydd wedi'i ddogfennu ac roedd y rhain yn cael eu rhannu â'r rhieni. Roedd yr ymarferwyr yn ymwybodol o unrhyw alergeddau ac anghenion deietegol ac yn diwallu anghenion y plant yn unol â hynny. Roedd y rhieni'n cael gwybod am weithgareddau yn rheolaidd gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol diogel. Gwelsom waith cynllunio ar wahân ar gyfer y clwb ar ôl ysgol.

Mae'r ymarferwyr yn hybu dysgu'r plant yn effeithiol drwy ddarparu amgylchedd chwarae â gweithgareddau amrywiol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel iawn ac mae asesiadau risg ysgrifenedig yn dystiolaeth bod pob ymarferydd yn gwybod sut i gadw'r plant yn ddiogel. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda, dan do ac yn yr awyr agored, gan ymarferwyr gwybodus. Mae'r arweinwyr hefyd yn darparu amgylchedd sy'n amrywiol, ysgogol ac addas i'r plant sy'n mynychu. Mae ansawdd ac amrywiaeth yr adnoddau yn dda.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel.

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y safle yn ddiogel gyda mynedfa dan glo a chloch ar gyfer rhieni ac ymwelwyr ac roedd cofnod o ymwelwyr yn cael ei gadw. Roedd diogelwch y plant yn flaenoriaeth, ac roedd pob ardal dan do ac yn yr awyr agored yn ddiogel ac roedd asesiadau risg cynhwysfawr yn dangos bod yr ymarferwyr yn gwybod am y risgiau a sut i'w rheoli. Roedd y dogfennau hyn a adolygwyd yn ddiweddar yn cynnwys peryglon posibl dan do ac yn yr awyr agored. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio wrth iddynt symud o un ardal i'r llall, er enghraifft, yn yr awyr agored ac wrth gludo'r plant i'r ysgol ac oddi yno.

Mae gan yr arweinwyr systemau llwyddiannus i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas i oedran y plant sy'n mynychu.

Roedd digon o le chwarae ar gael dan do ac yn yr awyr agored mewn safle sydd wedi'i osod yn dda. Roedd yr ardaloedd chwarae yn y brif ystafell ar uchder y plant er mwyn iddynt eu defnyddio'n hawdd ac roedd pob ardal yn cynnwys digon o offer ar gyfer gofal a chwarae'r plant.  Roedd cadeiriau maint plentyn, byrddau a dodrefn pren cadarn yn cael eu defnyddio dan do gan gynnwys ardal newid cewynnau lân. Roedd yr ymarferwyr yn defnyddio cegin fodern, fawr oedd â chyfarpar da i baratoi byrbryd a the ysgafn. Arddangoswyd gwaith y plant gan roi ymdeimlad o berthyn iddynt. Roedd y toiledau o faint priodol i oedolion gyda gris er mwyn galluogi'r plant i'w defnyddio'n annibynnol ac roedd gan y basnau ymolchi sebon hylifol gyda thywelion papur. Roedd yr ardal awyr agored yn ddiogel ac yn cael ei gweithredu'n llawn, ac mae cynlluniau ar gyfer gwneud gwelliannau i'r ardal hon.

Roedd y tymheredd yn foddhaol ond dangosodd y thermomedr ddarlleniadau anghywir gan ei fod wedi cael ei osod ar silff ffenestr ddrafftiog. Pan osodwyd hwn yn y brif ardal chwarae cynyddodd y darlleniad yn gyflym. Cawsom sicrwydd ysgrifenedig gan y person â chyfrifoldeb fod y drefn hon yn parhau a chaiff cofnodion cywir eu cadw bellach.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau'n effeithiol bod yr amgylchedd yn cynnwys cyfarpar da, sy'n addas i blant ac yn ysgogol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a’r cyfarpar?

Mae'r arweinwyr yn darparu adnoddau a chyfarpar sy'n amrywiol, yn lân ac o ansawdd da.

Roedd amrywiaeth eang o adnoddau chwarae a dysgu datblygiadol addas o ansawdd da ar gael i'r plant, dan do ac yn yr awyr agored. Roedd y teganau a'r gemau yn lân ac yn addas i oedran y plant sy'n mynychu, gan gynnwys digon o adnoddau fel peintio ac eitemau crefft. Gwelwyd llawer o adnoddau yn yr ystafell a oedd yn cael eu cadw ar lefel uchder y plant ac roedd lluniau ar yr unedau storio fel y gallai'r plant roi'r teganau i gadw yn hawdd. Gwelsom lyfrau, a theganau er mwyn adlewyrchu diwylliannau amrywiol. Gwelsom gemau bwrdd a gweithgareddau ychwanegol ar gyfer y plant ar ôl ysgol hŷn.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau ansawdd a phriodoldeb yr adnoddau a'r cyfarpar.

## 4. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

### Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn brofiadol, yn wybodus ac yn ceisio darparu gwasanaeth o safon. Mae hunanwerthuso yn effeithiol a gwneir gwelliannau gan ystyried pawb dan sylw. Mae'r ymarferwyr yn cael eu rheoli'n dda ac mae'r arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cael digon o hyfforddiant, cymorth ac adnoddau yn barhaus. Mae partneriaethau â'r rhieni ac eraill yn effeithiol er budd y plant a'u teuluoedd.

### Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan yr arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth, sy'n cael ei rhannu â'r rhieni.

Roedd gan yr arweinwyr ymdeimlad o ddiben a disgwyliadau er mwyn hybu gwelliant a chanlyniadau da i'r plant. Roedd y Datganiad o Ddiben yn gynhwysfawr ac yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar rieni er mwyn dewis pa fath o wasanaeth sydd ei angen ar gyfer eu plentyn. Roedd aelodau o'r pwyllgor cefnogi yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd, wedi'u cofnodi yr oedd y staff hefyd yn eu mynychu ac yn cael eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau. Gwelsom fod y gweithlu yn hapus, yn gymwys ac yn cael cymorth da. Gwelsom ymarfer cyson drwy gydol y gwasanaeth ac roedd yr ymarferwyr yn gweithio'n dda fel tîm. Roedd yr holl ymarferwyr yn ymwybodol o'r strwythur arwain a sut i gysylltu ag unigolion allweddol fe aelodau o'r pwyllgor. Roedd yr arweinwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol ac yn sicrhau eu bod yn eu cyflawni, er enghraifft, roedd ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Hysbysodd yr arweinwyr ni am ddigwyddiadau pwysig megis bod ar gau. Dangosodd y gofrestr fod digon o staff wedi'u cyflogi bob amser i ofalu am y plant ac roedd y rheolwr bob amser yn weithiwr ychwanegol. Er bod aelodau anghymwysedig o'r staff weithiau'n bresennol nid oeddent yn cyfrif yn y cymarebau ac roeddent yn helpu gyda thasgau ymarferol.

Mae'r arweinyddiaeth yn glir ac yn effeithiol sy'n sicrhau canlyniadau da i'r plant.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r arweinwyr yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso. Mae'r gwasanaeth yn cael ei adolygu a'i ddatblygu'n barhaus.

Mae'r arweinwyr a'r ymarferwyr yn adnabod eu gwasanaeth yn dda ac yn hybu diwylliant cadarnhaol o hunanwerthuso a gwella parhaus. Caiff eu hadroddiad blynyddol o ansawdd gofal ei gwblhau maes o law ac mae barn y rhieni wedi'i nodi eisoes. Casglwyd barn y plant drwy flwch awgrymiadau ac adolygiadau o weithgareddau ar gyfer y plant iau. Roedd y gwasanaeth eisoes wedi gweithredu ar rai meysydd i'w gwella, gan gynnwys cael lloriau newydd a gwneud cais am grant yn llwyddiannus er mwyn gwella'r ardal awyr agored.

Mae'r arweinwyr yn adnabod y gwasanaeth yn dda. Mae cryfderau a meysydd i'w datblygu yn cael eu cydnabod, a chymerir camau gweithredu er mwyn cynnal safonau uchel a gwella ymarfer yn barhaus.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae gan yr arweinwyr systemau ar waith i reoli ymarferwyr ac adnoddau.

Gwelsom ymarferwyr brwdfrydig a medrus a oedd yn gofalu am y plant ac yn eu helpu i fanteisio i'r eithaf ar y gweithgareddau a'r profiadau a ddarparwyd. Roedd gan yr ymarferwyr gymwysterau addas ac roeddent wedi cael gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Roedd ffeiliau gwybodaeth ar gyfer ymarferwyr yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol i ddangos tystiolaeth o brosesau recriwtio cadarn ac addasrwydd yr ymarferwyr. Dywedodd yr ymarferwyr wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth ac roedd nodiadau goruchwylio rheolaidd yn cael eu cadw a oedd yn adlewyrchu bod anghenion yr ymarferwyr yn cael eu hystyried. Roedd cofrestri yn dangos bod digon o ymarferwyr wedi'u cyflogi bob amser. Gwelwyd bod siart hyfforddiant staff yn atgoffa arweinwyr ynghylch pryd yr oedd hyfforddiant gorfodol yn ofynnol a phryd yr oedd angen archebu unrhyw gyrsiau eraill.

Mae gan yr arweinwyr systemau effeithiol a llwyddiannus i reoli'r broses recriwtio, nodi anghenion hyfforddi a gweithio gyda'r ymarferwyr er mwyn gwella perfformiad.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r arweinwyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am y gwasanaeth ac mae ganddynt bartneriaethau pwysig â nhw.

Roedd yr arweinwyr yn rhoi gwybod i'r rhieni am bob agwedd ar ofal plant. Gwelsom y rhieni a'r ymarferwyr yn rhannu gwybodaeth yn llwyddiannus. Gallai'r rhieni siarad â'r ymarferwyr bob dydd ac roeddent yn cael cyfle i rannu eu barn drwy holiadur. Gwnaethom siarad â dau riant ac roeddent yn canmol yr ymarferwyr a'r gwasanaeth yn fawr a gwnaethant sylwadau ar y ffaith bod eu plant yn dysgu caneuon ac ymadroddion Cymraeg. Defnyddir ymwelwyr â'r gwasanaeth i ehangu profiadau'r plant megis helpu'r plant i wneud torchau Nadolig a gwahardd y ficer lleol i siarad â'r plant.

Mae'r arweinwyr yn llwyddo i sicrhau bod partneriaethau â'r rhieni ac eraill o fudd i'r plant ac yn esgor ar ganlyniadau cadarnhaol iddyn nhw a'u teuluoedd.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Cafodd elfennau o bryder a gafwyd ynglŷn â gofal a datblygiad a'r amgylchedd eu cynnwys. Ymwelodd un arolygydd â’r gwasanaeth ar 12 Chwefror 2019 rhwng 10.00 a 16.30.

Gwnaethom:

- archwilio sampl o ddogfennau a pholisïau;
- arsylwi ar arferion a chwblhau sesiynau arsylwi er mwyn cael tystiolaeth o'r plant yn ymgysylltu â'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, dau riant a phedwar ymarferydd;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir;
- cyflwyno ein canfyddiadau i'r person â chyfrifoldeb a gytunodd i'w cyfleu i'r unigolyn cyfrifol.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal Dydd Llawn** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Ffion Williams** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Lisa Jones** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **20** |
| **Ystod oedran y plant** | **2 – 12 oed** |
| **Oriau agor** | **08.00 – 18.00 o ddydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymor yr ysgol** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Cymraeg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf ers cofrestru ar 20 Awst 2018** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **12 Chwefror 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy**<br>Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |